
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Parc Porthceri i'r Cnap, Bro Morgannwg

## Taith gerdded ddifyr sy'n addas i deuluoedd, gyda lle chwarae antur a llwybrau natur rhyngweithiol ar hyd y daith.

*"Mae'r golygfeydd o Ynys Ronech ac Ynys Echni ar y daith gerdded hon yn werth eu gweld, hyd yn oed os oes rhywfaint o ddringo i fyny'r grisiau aur i mewn i Cliffwood. Mae'r traeth yn y fan yma hefyd yn lle gwych i ymweld ag ef. Pan fo'r llanw'n caniatáu, mae'n ymestyn o'r Cnap, i'r gorllewin o'r Barri, yn ôl i Barc Gwledig Porthceri, sy'n enwog yn bensaernïol am Draphont Porthceri â'i hun-ar-bymtheg o fwâu."*

TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

### Dechrau a Diwedd:

Parc Gwledig Porthceri/y Cnap

### Pellter:

3 milltir/5km.

### Ar hyd y ffordd...

Dyma daith gerdded ddifyr sydd â llawer o bethau i ymwelwyr iau eu gweld a'u gwneud. Cyn ichi gychwyn, treuliwch amser yn darganfod tir gwyrddlas Parc Gwledig Porthceri. Byddwch yn gweld y draphont eiconig sy'n torri ar draws y parc, ynghyd â lle chwarae antur ac amryw o lwybrau natur rhyngweithiol sy'n cyflwyno hanes a nodweddion byd natur y parc.

Pan fyddwch yn barod i symud ymlaen, ewch ar y llwybr i lawr tuag at y traeth cerrig mân, gan droi tua'r dwyrain i ddechrau'r daith ddringo hir i fyny'r clogwyn dwyreiniol drwy Cliffwood. Byddwch yn mynd i fyny cyfres o risiau - y Grisiau Aur - a elwir yn hynny oherwydd, yn ôl y chwedl, mae trysor môr-ladron wedi'i guddio oddi tanynt.

Ar ôl seibiant haeddiannol ar ben y grisiau, ewch yn eich blaen ar hyd y clogwyni cyn dechrau mynd i lawr tuag at y Cnap (sef cymydog heddychlon Ynys y Barri), heibio adfeilion adeilad Rhufeinig – sef gwesty (neu blasty) o'r drydedd ganrif a ddefnyddid ar un adeg gan ymwelwyr a gyrhaeddai'r hen harbwr.

Cyn bo hir, byddwch ar draeth cerrig mân sy'n ymestyn yr holl ffordd i bentir creigiog y Cnap Oer. Dilynwch y promenâd i'r pentir hwn, a'ch gwobr yno fydd golygfeydd gwych o Ynys Ronech, Ynys Echni, ac arfordir Gwlad yr Haf ar ochr draw Môr Hafren.

### Angen gwybod:

Mae caffis, toiledau a lleoedd parcio ym Mharc Gwledig Porthceri a ger y Cnap.